Tachwedd 2024

NASUWT
The Teachers' Union
WALES

# ATHRAWON LLANW
# BWLETIN

**Llywodraeth y DU yn cymryd camau i fynd i'r afael ag osgoi treth ymhlith cwmnïau ymbarél**
Mae cwmnïau ymbarél yn gyfryngwyr marchnad lafur sy'n ysgwyddo'r rhwymedigaethau o ran hawliau cyflogaeth, talu gweithwyr, a thalu'r trethi perthnasol i weithwyr, megis athrawon llanw.

Mae cwmnïau ymbarél diegwyddor yn gysylltiedig â phroblemau sydd yn amrywio o ddiffyg tryloywder ynghylch telerau ac amodau allweddol, gan gynnwys cyfraddau cyflog, bod yn anfwriadol â threfniadau treth twyllodrus – a gall pob un ohonynt gael canlyniadau ariannol difrifol.

Yn wir, mae dadansoddiad CThEM yn dangos bod £500 miliwn wedi'i golli i gynlluniau cudd i osgoi treth ar daliadau ariannol yn 2022/23, gyda bron y cyfan wedi'i hwyluso gan gwmnïau ymbarél.

Roedd Cyllideb diweddar yr Hydref yn cynnwys cyhoeddiad gan Llywodraeth y DU ynglŷn â'r ffordd y mae cwmnïau ymbarél yn gweithredu yn y farchnad lafur mewn ymgais i fynd i'r afael â diffyg cydymffurfio â threthi.

Mae hyn yn dilyn **ein hymateb** i'r ymgynghoriad *Mynd i'r afael â diffyg cydymffurfio yn y farchnad cwmnïau* ymbarél yn ôl yn 2023, a amlygodd y problemau a brofir gan athrawon llanw sy'n aml yn cael eu hunain mewn sefyllfa o gael eu gorfodi i weithio drwy gwmni ymbarél wrth gofrestru ag asiantaethau cyflogaeth.

**Beth mae Llywodraeth y DU yn ei gynnig?**
Mae'r Llywodraeth y DU wedi datgan ei hymrwymiad i sicrhau bod gweithwyr dros dro yn cael eu hamddiffyn rhag biliau treth mawr ac annisgwyl a achosir gan ymddygiad diegwyddor gan gwmnïau ymbarél sydd ddim yn cydymffurfio.

O'r herwydd, bydd Llywodraeth y DU yn gweithredu deddfwriaeth i newid pwy sy'n gyfrifol am weithredu Talu Wrth Ennill (PAYE) pan ddefnyddir cwmni ymbarél yn y gadwyn gyflenwi i gyflogi gweithiwr.

Bydd hyn yn tynnu'r cyfrifoldeb i weithredu ac adrodd am PAYE oddi ar y cwmni ymbarél sy'n cyflogi'r gweithiwr drosodd i'r asiantaeth gyflogi sy'n cyflenwi'r athro llanw i'r defnyddiwr/cleient terfynol (e.e. yr ysgol).

Os nad oes unrhyw asiantaeth gyflogi yn rhan o'r gadwyn gyflenwi, yna'r defnyddiwr/cleient terfynol (e.e. yr ysgol) fydd yn gyfrifol am sut y gwneir hyn.

Daw hyn i rym o Ebrill 2026.

**Os bydd cwmni ambarél yn methu â thalu'r dreth gywir, bydd asiantaethau recriwtio neu gleientiaid terfynol yn cael y bil.**
Nid yw'r newid hwn felly yn gwahardd y defnydd o gwmnïau ymbarél, ond mae'n rhoi llawer mwy o bwysau ar bartïon eraill yn y berthynas i ddangos cyfrifoldeb am sut y mae cwmnïau ymbarél yn gweithredu pan fyddant yn cael eu defnyddio.

Mae hyn yn golygu bod gweithwyr asiantaeth, fel athrawon llanw, yn llai tebygol o gael eu gorfodi i weithio o dan drefniadau ymbarél camfanteisiol, gan na fydd asiantaethau recriwtio a defnyddwyr terfynol/cleientiaid am fentro gweithio gyda'r rhai y gwelir eu bod yn gweithio'n anghyfreithlon.

**Er bod hwn yn ddatblygiad i'w groesawu, mae NASUWT yn haeru bod angen mwy o weithredu i fynd i'r afael â chamddefnyddio hawliau cyflogaeth gan gwmnïau ymbarél diegwyddor, a bydd yr Undeb yn parhau i ymgyrchu dros reoleiddio'r farchnad cwmnïau ymbarél yn well.**